



Ymgysylltu a Gorfodi 20mya ledled Cymru

“Ymagwedd synhwyrol a chymesur tuag at gefnogi Llywodraeth Cymru yn y newid cadarnhaol ac effeithiol hwn i ddeddfwriaeth”

Mae Partneriaeth Lleihau Anafiadau Ffyrdd Cymru (GanBwyll) yn cynnwys pedwar heddlu Cymru, y 22 awdurdod lleol a Llywodraeth Cymru a'i nod yw sicrhau ffyrdd mwy diogel i holl ddefnyddwyr ffyrdd ledled Cymru.

Wrth wraidd y Bartneriaeth mae'r egwyddor sylfaenol o **leihau anafiadau ar ein ffyrdd ac achub bywydau**. Mae ein rhan fach ni yn yr ymdrech yma wedi canolbwyntio ar addysgu yn ogystal â gorfodi trwy erlyniadau.

Bydd yr egwyddor sylfaenol yna'n parhau wrth i ni gefnogi Llywodraeth Cymru i leihau marwolaethau ar ein ffyrdd ymhellach a gwneud ein ffyrdd yn fwy diogel i bawb.

Mae GanBwyll yn bwriadu dangos ei gefnogaeth dros y 12 mis nesaf a thu hwnt mewn tri cham, sy'n deg a chymesur i holl ddefnyddwyr y ffyrdd, o gerddwyr i ddefnyddwyr beiciau modur.

1. Sut bydd GanBwyll yn helpu i gyflawni ffyrdd mwy diogel yn y lle cyntaf pan fydd y ddeddfwriaeth yn newid?

Pan fydd y ddeddfwriaeth yn newid o 17^{eg} Medi 2023 yng Nghymru, bydd GanBwyll yn cydweithio'n agos gydag awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru i ddeall lefelau perygl ar y ffyrdd lle mae'r terfyn cyflymder yn gostwng i 20mya. Bydd GanBwyll yn lleihau'r perygl trwy nodi sbardunau penodol a fydd yn sicrhau ein bod yn adolygu cyflymder ffyrdd, a ble y bo gofyn, yn gorfodi'r terfyn cyflymder yn gymesur trwy ymgysylltu ac erlyniadau.

Bydd ffyrdd 20mya [yn cael eu hystyried](#) ar gyfer gorfodaeth os ydynt yn profi'r ffactorau canlynol:

- Gwrthdrawiad ar y ffordd. Bydd GanBwyll hefyd yn defnyddio gwybodaeth o achosion a fu bron a digwydd, mân ddigwyddiadau a digwyddiadau mwy difrifol ynghyd â [chyflwyniadau Ymgyrch SNAP](#).
- Cais gan gydweithwyr plismona neu awdurdod lleol i adolygu'r ffordd.

Gellir mabwysiadu safleoedd sy'n [bodloni meini prawf](#), ond bydd y rhain trwy eithriad yn unig o fewn chwe mis cyntaf y newid i ddeddfwriaeth a rhaid cael *tystiolaeth* o berygl i ddefnyddwyr ffyrdd agored i niwed.

Bydd GanBwyll yn gwrandao ar y gymuned er mwyn sicrhau ein bod yn rhoi sylw prydol i'w pryderon. Byddwn yn amlinellu ein meini prawf yn glir er mwyn i chi ddeall sut rydym yn asesu'r peryglon sy'n gysylltiedig â phob pryder a nodir gan y gymuned.



Byddwn yn ymateb i bryderon gan y gymuned trwy ystyried gwybodaeth am y broses gyfredol a phryderon sy'n cael eu cadw ar ffeil. Byddwn yn ceisio ymateb i bob cais o fewn dau ddiwrnod gwaith. Bydd y pryderon yma'n cael eu trosglwyddo i'r tîm "Ymgyrch Ugain" a fydd yn gallu darparu sesiynau ymgysylltu arbenigol i annog pobl i gydymffurfio â'r terfyn cyflymder. Bydd pobl sy'n achosi perygl i ddefnyddwyr ffyrdd yn cael eu herlyn.

Bydd GanBwyll yn gweithio mewn partneriaeth â'r Awdurdodau Priffyrdd ac yn sicrhau bod staff GanBwyll sy'n addysgu yn ogystal â gorfodi yn y lle iawn ar yr adeg iawn ac am y rheswm iawn. Adnoddau cyfyngedig sydd gennym ni i gadw ein ffyrdd yn ddiogel ac mae'n hollbwysig ein bod yn defnyddio'r adnoddau hynny'n effeithiol ac yn manteisio i'r eithaf ar alluoedd ein timau.

Lle'r oedd terfyn cyflymder 20mya ar waith ac mae wedi cael ei nodi yn safle gorfodi cyn 17^{eg} Medi 2023, bydd y safle'n parhau i gael ei orfodi, yn amodol ar ail wirio arwyddion a Gorchymyn Rheoli Traffig.

2. Sut bydd GanBwyll yn parhau i gefnogi cymunedau lleol a sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu gwasanaeth effeithiol a chymesur?


Wrth i'r terfyn cyflymder newydd ddod yn norm i ddefnyddwyr ffyrdd, bydd GanBwyll yn parhau i ganolbwyntio ar roi sylw i bryderon gan y gymuned, gan annog llunio Grwpiau [Gwyllo Cyflymder Cymunedol](#) a defnyddio gwybodaeth sy'n dod i'r amlwg i gefnogi gwaith gorfodi yn yr ardaloedd mwyaf peryglus. Byddwn yn gweithio gyda thimau "Ymgyrch Ugain" ledled Cymru sydd wedi cael eu creu i addysgu gyrwyr ac i helpu i newid ymddygiad gyrwyr trwy'r addysg honno.

Cwynion i gael eu hadolygu yn unol â meini prawf newydd ar gyfer 20mya. Byddwn yn rhoi mwy o bwys ar safleoedd lle: :

- mae gorfodi 30mya wedi digwydd yn flaenorol (o fewn y ddwy flynedd flaenorol)
- mae gwrthdrawiadau wedi digwydd ers Medi 2023
- mae llawer o gerddwyr a/neu seilwaith teithio prysur ar y safle

Bydd Ymateb i Bryderon gan y Gymuned yn cael ei ddiweddarau gyda'r broses gyfredol a byddwn yn ceisio ymateb o fewn dau ddiwrnod gwaith. Bydd tîm "Ymgyrch Ugain" yn parhau i gefnogi gwaith ymgysylltu tan 31ain Awst 2024¹.

Bydd GanBwyll yn defnyddio'i adnoddau mewn ffordd effeithiol a chymesur i sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth ymatebol i'r defnyddiwr ffyrdd wrth ddarparu gwasanaeth sy'n cynnig gwerth am arian.



¹ Yn amodol ar gyllid ar gyfer 2024



Bydd GanBwyll yn parhau i weithio'n agos gyda'n hasiantaethau partner gan ddefnyddio gwybodaeth a data newydd i lywio sut rydym yn gorfodi a ble rydym yn ymgysylltu.

3. Sut bydd GanBwyll yn edrych yn y dyfodol a sut byddwn yn parhau i gefnogi'r newidiadau i ddeddfwriaeth?

Mae GanBwyll wedi gorfodi ac addysgu gyrwyr ar ffyrdd 20mya (y tu allan i ysgolion neu mewn parthau 20mya gyda chefnogaeth peirianeg) am fwy na degawd. Bydd y terfyn cyflymder diofyn newydd yn dod yn norm i GanBwyll a phlismaona a bydd yn ymddangos ar ein safleoedd blaenoriaeth coch, oren a gwyrdd ledled Cymru. Er na fydd peirianeg yn helpu i gefnogi'r terfynau cyflymder yn yr un modd â'r Parthau, byddwn yn parhau i weithio gydag awdurdodau priffyrdd ac awdurdodau lleol ac yn eu herio nhw i gynorthwyo i leihau cyflymder ar ffyrdd lle mae gofyn am agwedd gydweithredol.

Bydd safleoedd 20mya yn cael eu cynnwys yn y broses dewis safle arferol o fis Ebrill 2024, a bydd y meini prawf ar gyfer dewis safle yn glir a thryloyw ac yn cael eu cyhoeddi ar ein [gwefan](#).